Cyllid & Thollau EM

# Cofrestru partneriaeth ar gyfer Hunanasesiad

## Ynglŷn â'r ffurflen hon

Dylid defnyddio'r ffurflen hon i gofrestru partneriaeth newydd ar gyfer Hunanasesiad. Mae'n cynnwys cwestiynau sy'n helpu Cyllid a Thollau EF (CThEF) i benderfynu ynghylch eich anghenion o ran eich Ffurflen Dreth.

**Pwy ddylai lenwi'r ffurflen hon**

- Partneriaethau
- Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig (PAC) a Phartneriaethau Cyfyngedig (PG) a gofrestrwyd gyda Thŷ'r Cwmnïau cyn 25 Hydref 2010.

Nid oes angen i PAC a PG lenwi'r ffurflen hon o 25 Hydref 2010 ymlaen, oherwydd byddant wedi cofrestru ar gyfer Hunanasesiad drwy eu cofrestriad gyda Thŷ'r Cwmnïau.

Rhaid i'r ffurflen hon gael ei llenwi gan y partner enwebedig. Dyma'r partner a enwebwyd gan y bartneriaeth i gael a chyflwyno Ffurflenni Treth y bartneriaeth.

**Sut i gofrestru partneriaid**

Yn ogystal â chofrestru'r bartneriaeth, rhaid i'r partner enwebedig a phob partner arall gofrestru'n unigol ar gyfer Hunanasesiad a CYG Dosbarth 2.

I wneud hyn, rhaid iddynt lenwi y naill neu'r llall o'r canlynol:

- SA401 'Cofrestru partner ar gyfer Hunanasesiad a CYG Dosbarth 2' – ar gyfer partner sy'n unigolyn
- SA402 'Cofrestru partner ar gyfer Hunanasesiad os nad yw'n unigolyn' – er enghraifft, mae'r partner yn gwmni, yn bartneriaeth arall, neu'n ymddiriedolaeth.

Os bydd unrhyw un o'r partneriaid eisoes wedi'u cofrestru ar gyfer Hunanasesiad, bydd dal angen iddynt lenwi'r ffurflen cofrestru partneriaeth briodol

**Penodi asiant**

Er mwyn awdurdodi asiant i weithredu ar ran y partner, gallwch naill ai lenwi ffurflen 64-8 'Awdurdodi eich asiant', neu ofyn i'ch asiant fynd ar-lein er mwyn cael yr awdurdod.

Holwch eich asiant ynghylch awdurdodi ar-lein, neu lawrlwythwch ffurflen 64-8 yn www.gov.uk/government/publications/tax-agents-and- advisers-authorising-your-agent-64-8.cy

**Os oes angen help arnoch**

Os bydd angen help arnoch, ffoniwch Wasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900.

Os ydych yn ffonio o'r tu allan i'r DU, deialwch +44 191 200 1900.

## Ynglŷn â'r bartneriaeth

1 **Enw'r bartneriaeth**

2 **Cyfeiriad y bartneriaeth**

Cod post

3 **Rhif ffôn**

4 **Enw masnachu'r bartneriaeth (os yw'n wahanol i'r uchod)**

5 **Cyfeiriad masnachu'r bartneriaeth (os yw'n wahanol i'r uchod)**

Cod post

6 **Beth yw natur y busnes a gyflawnir?**
Er enghraifft, plymwyr, busnes buddsoddi, peirianwyr trydanol

7 **Pryd y dechreuodd y busnes?** DD MM BBBB

8 **Beth yw math y bartneriaeth?**

- Partneriaeth ☐
- Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig (PAC) ☐
- Partneriaeth Gyfyngedig (PG) ☐

9 **Os yw math y bartneriaeth yn PAC neu PG, rhowch eich Rhif Cofrestru'r Cwmni (CRN)**

10 **Beth yw dyddiad cyfrifyddu'r bartneriaeth?** DD MM BBBB

## Ynglŷn â'r bartneriaeth parhad

**11** **Enw'r partner enwebedig** (gweler yr wybodaeth ar dudalen 1)

**12** **Cyfeiriad y partner enwebedig ar gyfer gohebiaeth**

Cod post

**13** **Nodwch Gyfeirnod Unigryw y Trethdalwr (UTR) y partner enwebedig, os yw eisoes wedi cofrestru ar gyfer Hunanasesiad.**

Dyma'r cyfeirnod 10 digid sydd i'w weld ar ohebiaeth ynghylch Hunanasesiad gan CThEF

Sylwer – bydd dal angen i'r partner enwebedig gofrestru ar gyfer Hunanasesiad a CYG Dosbarth 2 gan ddefnyddio ffurflen SA401.

## Datganiad

**Enw'r partner enwebedig**

Rwy'n datgan:

- bod yr wybodaeth a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred
- byddaf yn rhoi gwybod i Gyllid a Thollau EF ar unwaith petai fy amgylchiadau'n newid mewn ffordd sy'n effeithio ar yr atebion a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon.

**Llofnod**

**Dyddiad** DD MM BBBB

## Yr hyn i'w wneud nesaf

Anfonwch yr SA400, wedi'i llenwi, ynghyd ag unrhyw ffurflenni SA401, SA402 a 64-8 sydd wedi'u llenwi, i:

Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol a Chyflogwyr
Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF
HMRC
BX9 1ST

Gallwch ddefnyddio'r blychau i'r dde i ddweud wrthym sawl ffurflen arall sydd wedi'i hamgáu gyda'r SA400.

Peidiwch ag atodi unrhyw beth arall i'r ffurflenni hyn.

**Nodwch nifer y ffurflenni sydd wedi'u hamgáu gyda'r SA400**

Er enghraifft, os ydych yn amgáu ffurflenni 64-8 ar gyfer y bartneriaeth a dau bartner, nodwch '3'.

64-8 'Awdurdodi eich asiant'

SA401 'Cofrestru partner ar gyfer Hunanasesiad a CYG Dosbarth 2'

SA402 'Cofrestru partner ar gyfer Hunanasesiad os nad yw'n unigolyn'